Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Abermorddu
**Cymau Road**
**Abermorddu**
**Sir y Fflint**
**LL12 9DH**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Abermorddu

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Abermorddu ym mhentref Abermorddu, ger Caergwrle, yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae 215 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed yn yr ysgol, wedi eu trefnu'n saith dosbarth un oedran, a dosbarth meithrin rhan-amser.

Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 9%. Mae hyn yn llawer is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol neu'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 4% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol gan Estyn ym mis Mai 2013. Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2006.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r pennaeth, yr athrawon a’r staff cymorth yn gofalu am y disgyblion yn dda. Maent yn canolbwyntio’n glir ar ddatblygu lles disgyblion yn ddiwyd ac yn gydwybodol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau mynychu’r ysgol ac mae ganddynt berthnasoedd gwaith cadarnhaol â’r staff ac â’i gilydd. O ganlyniad, mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn dda.

Nid yw’r addysgu yn herio disgyblion yn effeithiol i gynhyrchu eu gwaith gorau yn gyson. O ganlyniad, nid yw medrau ysgrifennu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu’n ddigon cryf. Mae’r cwricwlwm wedi’i gynllunio’n wan ac nid yw’n cefnogi dilyniant effeithiol medrau disgyblion. Caiff llawer o weithgareddau eu harwain yn ormodol gan oedolion ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ehangach a bod yn ddysgwyr annibynnol medrus.

Mae’r tîm arweinyddiaeth cymharol newydd wedi wynebu heriau sylweddol yn ddiweddar, yn enwedig o ran perthnasoedd gwaith y staff. Mae hyn wedi cyfrannu at ddiffyg atebolrwydd ymhlith staff am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd yr addysg a ddarperir yn eu dosbarthiadau. Ni chaiff yr addysgu gan arweinwyr a rheolwyr ei fonitro’n ddigon trylwyr nac yn ddigon cadarn ac mae diffyg eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd. Ar hyn o bryd, nid yw arweinwyr yn dangos y gallu i ysgogi’r gwelliannau angenrheidiol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |

## Argymhellion

A1 Gwella arweinyddiaeth ar bob lefel a hyrwyddo cydweithio effeithiol ymhlith pob un o'r staff

A2 Gwella effeithiolrwydd yr addysgu ar draws yr ysgol i herio pob un o'r disgyblion i berfformio'n gyson ar eu gorau

A3 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio'n effeithiol ac yn gynyddol i ddatblygu a chodi safonau ym medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion mewn gwersi sy'n benodol i bwnc ar draws y cwricwlwm

A4 Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion

A5 Gwella safonau disgyblion mewn mathemateg

A6 Gwella medrau dysgu annibynnol disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig o ran yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digon cryf wrth ysgrifennu mewn ffurfiau estynedig ac wrth ddatblygu eu medrau rhifedd a TGCh. Nid yw llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl, yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd addas tuag at eu targedau unigol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando addas. Maent yn siarad am eu gwaith yn glir ac yn ail-ddweud storïau cyfarwydd yn dda, fel stori Yr Hugan Fach Goch. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwrando'n ddigon gofalus ar gyfarwyddiadau oedolion ac ar farn ei gilydd. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i gwblhau eu tasgau'n effeithiol. Caiff hyn effaith negyddol ar eu cynnydd a'u cyflawniad cyffredinol. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn siarad yn huawdl ac yn gwneud eu hystyr yn glir. Maent yn gwrando'n astud mewn gwersi. Pan fyddant mewn grwpiau trafod, maent yn rhannu syniadau'n barchus, gan wrando ar farn disgyblion eraill yn dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd araf wrth ddysgu llythrennau a seiniau. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd anghyson mewn darllen. Maent yn adnabod geiriau cyffredin o'u gweld ac yn defnyddio ciwiau llun yn dda i gynorthwyo eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, maent yn ei chael yn anodd darllen geiriau anghyfarwydd yn gywir o ganlyniad i'w gwybodaeth ansicr am ffoneg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau darllen. Mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen ar goedd yn hyderus, yn rhugl a gyda mynegiant bywiog. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a llyfrau ffeithiol ac yn ymarfer eu medrau darllen lefel uwch i ddod o hyd i wybodaeth o wahanol ffynonellau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymchwilio'n gydwybodol ar y rhyngrwyd i ddarganfod am brofiadau faciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac ymchwilio am Siapan.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n eglur at ystod o ddibenion. Er enghraifft, maent yn adrodd am ddigwyddiadau yn ystod Tân Mawr Llundain, yn creu rhestrau siopa ac yn ysgrifennu cyfarwyddiadau i wneud brechdan. Fodd bynnag, anaml y maent yn ysgrifennu'n estynedig. Yn aml, nid oes atalnodi sylfaenol yn eu brawddegau, ac nid ydynt yn gwneud defnydd effeithiol o'u gwybodaeth am ffoneg, sy'n cyfyngu ar eu cynnydd mewn sillafu. At ei gilydd, nid yw eu medrau ysgrifennu yn datblygu'n effeithiol yn unol â'u galluoedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu at ystod eang o ddibenion. Er enghraifft, maent yn creu bywgraffiadau pobl enwog ac yn defnyddio ysgrifennu perswadiol i annog ymwelwyr i ddringo Mynydd Yr Wyddfa. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae safonau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn anghyson ac yn amrywio gormod rhwng dosbarthiadau. Mae medrau ysgrifennu lleiafrif o ddisgyblion yn wan, ac maent yn rhy ddibynnol ar oedolion i gwblhau tasgau. Mae gwaith

ysgrifenedig llawer o ddisgyblion yn anfoddhaol o gymharu â'u galluoedd, ac nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth gwblhau tasgau ysgrifennu.

Mae tua hanner y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth gaffael medrau sylfaenol mewn mathemateg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cyfrifiadau syml yn gywir ac yn mesur breichiau a choesau ei gilydd yn ofalus. Fodd bynnag, mae gallu llawer o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau mathemategol i ddatrys problemau a dewis pa weithrediadau sydd eu hangen arnynt i gwblhau tasgau yn gyfyngedig.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau digonol yn y rhan fwyaf o agweddau ar fathemateg. Fodd bynnag, anaml y maent yn cymhwyso eu medrau i ddatrys problemau yn annibynnol mewn tasgau heriol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau mathemategol yn y cwricwlwm ehangach yn wan, ac mae eu cynnydd yn anfoddhaol. Mae hyn o ganlyniad i ddefnydd cyfyngedig o'u medrau rhifedd ac ansawdd gwael eu gwaith o ran eu galluoedd. Yn ychwanegol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos diffyg dyfnder yn eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio mathemateg mewn sefyllfaoedd bob dydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn hyderus i gofnodi eu gweithgareddau ac ymarfer gemau rhif ac ymarferion ffoneg. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd yn fedrus i greu cyflwyniadau diddorol, er enghraifft am fywyd fel gwas neu forwyn yn oes y Tuduriaid. Fodd bynnag, mae disgyblion o bob oedran yn defnyddio eu TGCh yn rheolaidd at ystod gyfyngedig o ddibenion. Er enghraifft, nid ydynt yn ei defnyddio'n effeithiol i drin data a chreu cronfeydd data a thaenlenni a chasglu gwybodaeth ohonynt yn bwrpasol. O ganlyniad, mae eu defnydd o TGCh ar draws y cwricwlwm a'u dealltwriaeth gyfyngedig o sut i ddefnyddio medrau TGCh mewn gwahanol gyd-destunau i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, yn anfoddhaol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau llafaredd Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio ymadroddion addas mewn sefyllfaoedd bob dydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn rhoi atebion boddhaol pan gânt eu hysgogi gan athrawon. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn dangos diffyg hyder yn ystod trafodaethau. Mae eu darllen a'u hysgrifennu yn Gymraeg yn ddigonol.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus a gyda balchder am eu hysgol. Maent yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol, a bod staff yn gofalu amdanynt yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod athrawon a staff cymorth yn gwrando arnynt yn sensitif ac yn dangos llawer o gefnogaeth a pharch i'w hanghenion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais a chyfeillgar, ac yn dangos parch at ddisgyblion eraill, ac at oedolion. Maent yn deall rheolau'r ysgol ac yn cadw atynt yn gyson. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldebau i gloi gatiau'r ysgol a chyflawni dyletswyddau o gwmpas yr ysgol yn ystod amser chwarae. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cydweithredu'n

effeithiol mewn gwersi wrth weithio mewn parau a grwpiau.  Maent yn symud o gwmpas yr ysgol yn feddylgar, gan gynnwys wrth fynychu gwasanaethau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn siarad yn hyderus am fathau maethlon o fwyd wrth drefnu parti ar gyfer creadur chwedlonol, sy'n cysylltu'n dda â'u gwaith testun.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwybodaeth gadarn am fwydydd sy'n dda i chi, ac yn trafod yn ddeallus bwysigrwydd bwyta ffrwythau a llysiau yn rheolaidd.  Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn dewis bwyta'n iach amser chwarae.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gweithgarwch corfforol wrth ofalu am eu cyrff, yn enwedig eu calonnau.  Maent yn croesawu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chwarae gemau amser cinio ac mewn clybiau buddiol ar ôl yr ysgol, sy'n hyrwyddo eu hiechyd a'u lles yn dda.  Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau pêl-rwyd, rygbi a chlwb ffitrwydd yr ysgol, y mae llawer ohonynt yn ei fynychu'n rheolaidd.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein.  Maent yn deall yn dda bod rhaid iddynt beidio â rhannu cyfrineiriau na gwybodaeth bersonol gyda phobl eraill.

Mae gan ychydig o ddisgyblion rolau arwain ychwanegol, y maent yn eu mwynhau, er enghraifft fel rhan o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco.  Mae ychydig o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau entrepreneuraidd yn dda trwy gynnal ystod o wahanol fusnesau.  Er enghraifft, mae disgyblion yn gwneud eu jam a'u sityni eu hunain i'w gwerthu mewn marchnad leol ac yn cyfrifo maint eu helw.

Ar adegau prin iawn, mae disgyblion yn gweithio'n dda yn annibynnol.  Er enghraifft, mae mwyafrif o ddisgyblion iau yng nghyfnod allweddol 2 yn dewis strategaethau mathemategol addas i ddatrys problemau yn annibynnol.  Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddigon parod i ddewis gweithio'n annibynnol.  Ar draws yr ysgol, mae gormod o ddisgyblion yn aros yn oddefgar i ffrind neu oedolyn eu helpu pan fyddant yn gweld eu gwaith yn anodd.  Mae hyn yn amlygu eu diffyg dyfalbarhad a gwydnwch wrth geisio cwblhau tasgau heriol.

Yn ddiweddar, mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at ddewis y testunau y maent eisiau eu dysgu mewn gwersi.  Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn ac nid yw disgyblion yn dangos y gallu i ddylanwadu'n effeithiol ar yr hyn y maent yn ei ddysgu bob dydd.  Ar draws yr ysgol, ni chaiff disgyblion ddweud eu dweud ddigon ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddysgu, a sut, ac maent yn dibynnu gormod ar gyfarwyddyd gan oedolyn.  Mae hyn yn cyfyngu'n ormodol ar eu gallu i ddangos annibyniaeth, blaengaredd a dawn greadigol.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd a mentrau'r ysgol ynghylch sut i wella presenoldeb.  Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion yr ysgol, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac nid ydynt yn cymharu'n dda â chyfraddau presenoldeb disgyblion mewn ysgolion tebyg.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

At ei gilydd, mae llawer o wendidau sylweddol yn ansawdd yr addysgu. Mae disgwyliadau llawer o athrawon o'r safonau y gall disgyblion eu cyflawni yn rhy isel ac nid yw'r tasgau y maent yn eu gosod ar gyfer disgyblion yn eu herio'n ddigon da. Nid yw'r addysgu yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol. Er enghraifft, mae gormod o gyfarwyddyd gan oedolion ar draws yr ysgol a gorddefnyddio taflenni gwaith rhagnodol yn cyfyngu ar fedrau dysgu annibynnol disgyblion. O ganlyniad, nid yw tasgau dysgu yn diwallu anghenion nac yn bodloni galluoedd pob disgybl yn ddigon da.

Mae bron pob un o'r staff yn sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion, ac fe gaiff y rhain effaith fuddiol ar eu lles. Mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol ac yn trin pob disgybl yn gyfartal a gyda pharch priodol. Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, mae'r addysgu'n meithrin agweddau cadarnhaol ymhlith disgyblion, trwy adolygiadau llwyddiannus o'u dysgu blaenorol a holi medrus. Fodd bynnag, mewn gormod o wersi, nid yw'r ffordd y mae athrawon yn grwpio disgyblion yn eu helpu i ddiwallu anghenion unigol disgyblion yn bwrpasol, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl.

Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu effeithiol gyda disgyblion ac yn pwysleisio pwysigrwydd nodi sut i lwyddo mewn tasgau. Mae'r athrawon hyn yn addasu gweithgareddau'n dda i weddu i anghenion gwahanol alluoedd. Fodd bynnag, mae'r arfer hon yn anghyson ar draws yr ysgol, ac o ganlyniad, mae gormod o'r addysgu nad yw'n helpu disgyblion i wneud cynnydd da. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae cyflymdra'r dysgu yn rhy araf ac fe gaiff cyflwyniadau rhy hir gan athrawon effaith negyddol ar gynnydd disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Nid yw'r ysgol yn cynllunio'r cwricwlwm yn ddigon strategol. Nid yw cynlluniau gwaith yn cysylltu â'i gilydd yn effeithiol. Nid ydynt yn creu dull cydlynol a chynyddol o ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae athrawon yn cynllunio gormod o dasgau ynysig ac nid ydynt yn cysylltu â thasgau eraill nac yn adeiladu'n ddigon da ar ddysgu blaenorol disgyblion. O ganlyniad, yn rhy aml, nid yw cynllunio athrawon yn sicrhau bod gwersi'n adeiladu'n systematig ar gyflawniadau blaenorol disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar ddyfnder dysgu a dealltwriaeth disgyblion.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn briodol, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'n cynorthwyo disgyblion yn ddigon da i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o wahanol ffurfiau ysgrifennu. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfyngedig a distrwythur i ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae'r cyfleoedd pwrpasol a ddarperir i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn systematig ar draws y cwricwlwm yn annigonol. Yn ychwanegol, nid yw llawer o athrawon yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau TGCh disgyblion yn effeithiol.

Yn y cyfnod sylfaen, caiff disgyblion fynediad at yr awyr agored ac at ddarpariaeth estynedig a pharhaus, yn eu hystafelloedd dosbarth ac mewn ardaloedd gweithio ar y cyd. Fodd bynnag, nid yw staff yn dangos dealltwriaeth ddigon cryf o sut i addysgu'n effeithiol yn unol ag egwyddorion y cyfnod sylfaen. Nid ydynt yn monitro'r

amgylchedd dysgu yn llwyddiannus i annog disgyblion i weithio'n ddiwyd wrth weithio'n annibynnol. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn dysgu'n gynhyrchiol yn ystod gweithgareddau parhaus ac estynedig. Mae hyn yn golygu nad yw cyfleoedd a gynllunnir yn helpu disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus neu ddatblygu eu medrau creadigol, datrys problemau a meddwl yn llwyddiannus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn llwyddo i wneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr. Mae arddangosfeydd lliwgar a deniadol yn cefnogi addysgu a dysgu yn briodol.

Mae athrawon yn rhoi adborth adeiladol i ddisgyblion i'w galluogi i ddeall sut i wella eu gwaith, yn enwedig ar lafar. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn effeithiol. Nid yw athrawon yn dwyn disgyblion i gyfrif yn ddigon da mewn tasgau dilynol. O ganlyniad, nid ydynt yn herio disgyblion yn drylwyr i sicrhau eu bod yn cymryd cyfrifoldeb am wella eu gwaith eu hunain a chyflawni cystal ag y gallant.

Mae'r ysgol yn addysgu disgyblion yn llwyddiannus ynglŷn â manteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog. Mae'r ysgol yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru, sy'n cynnwys ymchwilio i fanylion diddorol am brifddinas Cymru.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cynnes a chroesawgar ar gyfer disgyblion ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae pob un o'r staff yn darparu gofal a chymorth effeithiol ar gyfer disgyblion, sy'n cyfrannu'n dda at sicrhau eu bod yn hapus a bodlon yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn monitro ac olrhain cynnydd yr holl unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn systematig gan ddefnyddio ystod eang o asesiadau. Maent yn defnyddio canlyniadau monitro yn effeithiol i nodi ychydig o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol penodol. Mae arweinwyr yn rhannu canlyniadau monitro gyda staff addysgu i amlygu disgyblion eraill sy'n gwneud cynnydd uwchlaw neu islaw disgwyliadau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ac athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon trylwyr i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni cystal ag y dylent. Mae'r diffyg trylwyredd hwn yn cyfyngu ar ansawdd darpariaeth yr ysgol a safonau disgyblion.

Mae athrawon yn gweithio'n agos ag ystod eang o asiantaethau arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau cymorth ymddygiad, cwnsela a gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn defnyddio hyfforddiant ac arweiniad gan y gwasanaethau hyn yn dda, yn enwedig wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol. Mae hyn yn galluogi disgyblion a nodwyd i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgol ac elwa ar y cyfleoedd y mae'n eu cynnig.

Mae staff yn nodi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gynnar. Maent yn gosod targedau clir ar gyfer disgyblion yn eu cynlluniau unigol ac yn monitro eu cynnydd yn rheolaidd. Mae staff yn sicrhau eu bod yn ceisio cymorth allanol ar gyfer y disgyblion hyn pan fydd angen. Maent yn cynnwys disgyblion wrth drafod ac adolygu pa mor dda y maent yn gwneud ac yn hysbysu rhieni yn llawn.

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o gymorth tynnu allan o wersi mewn grwpiau bach ar gyfer disgyblion y nodwyd bod angen cymorth arnynt i ddatblygu eu medrau sylfaenol.  Fodd bynnag, nid yw'r gwaith grŵp yn gwbl effeithiol o ran symud disgyblion ymlaen.  Mae'r diffyg cydlyniad rhwng y sesiynau cymorth a gwaith disgyblion yn yr ystafell ddosbarth yn methu sicrhau bod disgyblion yn elwa ar y cymorth ychwanegol.  O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd digon da yn unol â'u galluoedd.

Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn hysbysu rhieni'n dda trwy gylchlythyrau bob hanner tymor ac ap yr ysgol.  Maent yn trefnu sesiynau gwybodaeth a digwyddiadau gwerthfawr ar gyfer rhieni, fel y 'caffi darllen' lle gall disgyblion a rhieni weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod rhieni'n cynorthwyo disgyblion i ddarllen gartref.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Cynhelir ystod dda o glybiau ar ôl yr ysgol sy'n cynnig gweithgareddau chwaraeon a cherddorol.  Mae'r rhain yn helpu datblygu medrau corfforol a chreadigol disgyblion yn dda.  Mae arddangosfeydd celf o gwmpas yr ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus.

Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau a datblygu eu medrau arwain.  Mae disgyblion yn cymryd rhan yn y grŵp meddylgarwch, er enghraifft, ac yn gweithredu fel llysgenhadon chwaraeon ac arweinwyr digidol.  Yn ddiweddar, mae'r grŵp eco wedi gweithio'n dda gyda sefydliad cadwraeth i gynllunio mwy o ddatblygiadau i dir yr ysgol.  Mae disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau busnes yn bwrpasol trwy gymryd cyfrifoldeb am brosiectau 'AbermorVeg' ac 'AbermorJam'.

Caiff disgyblion brofiadau gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o werthoedd ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn ystod gwasanaethau a gweithgareddau ystafell ddosbarth, sy'n eu hannog i barchu credoau a chrefyddau eraill.  Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol trwy'r ymweliad blynyddol â Ffrainc gan ddisgyblion Blwyddyn 6, er enghraifft, a thrwy ymweliadau rheolaidd â'r theatr.  Caiff disgyblion amrywiaeth dda o gyfleoedd i berfformio yn yr ysgol ac yn y gymuned leol, yn enwedig fel aelodau o gôr yr ysgol.  Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol â sefydliadau cymunedol i wella'r profiadau dysgu ar gyfer disgyblion.  Yn ddiweddar, mae'r arweinwyr digidol wedi cynorthwyo oedolion mewn cartref preswyl i ddatblygu eu defnydd o TGCh.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Anfoddhaol ac angen gwelliant brys

Mae'r pennaeth yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hapus a'u bod yn canolbwyntio'n gadarnhaol ar fwynhau eu cyfnod yn yr ysgol.  Fodd bynnag, mae'r diffyg perthnasoedd gwaith effeithiol ymhlith staff allweddol yn y blynyddoedd diwethaf yn cael effaith negyddol ar effeithiolrwydd gwaith yr ysgol.  Mae'r heriau hyn wedi cyfyngu ar rôl y pennaeth wrth fonitro gwaith yr ysgol a dwyn staff i gyfrif am ansawdd yr addysg a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn dosbarthiadau.  Er enghraifft, mae'r rhwystrau presennol rhag cydweithio yn cyfyngu ar rannu arfer dda ymhlith yr athrawon ac yn atal cyfleoedd i staff fynd i'r afael â gwendidau mewn addysgu ar draws yr ysgol.

Ar wahân i'r pennaeth, mae uwch arweinwyr yr ysgol yn gymharol newydd i'w swyddi. Nid ydynt wedi cael cyfle i weithio gyda'i gilydd yn gydlynol fel tîm cyflawn yn ddiweddar, ac mae hyn wedi cyfyngu ar eu heffaith ar wella'r ysgol. O ganlyniad, nid oes gan y pennaeth a'r staff weledigaeth ar y cyd ar gyfer gwella'r ysgol ac mae disgwyliadau proffesiynol yn rhy isel. Mae ansicrwydd sylweddol ynghylch rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd ymhlith staff. At ei gilydd, nid yw'r staff yn cydweithio fel tîm i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallent a bod ansawdd yr addysgu yn uchel ym mhob dosbarth.

Mae gan lywodraethwyr wybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol ac effaith ei darpariaeth ar ddeilliannau disgyblion. Maent yn cynorthwyo'r ysgol yn dda trwy gynnal teithiau dysgu, craffu ar lyfrau disgyblion a chynnal cyfarfodydd ag arweinwyr yr ysgol. Maent yn fodlon cyfrannu at nodi targedau'r ysgol ar gyfer gwella, ac yn sicrhau eu bod yn dyrannu cyllid yn foddhaol i fynd i'r afael ag anghenion yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys athrawon a chynorthwywyr addysgu ychwanegol sy'n darparu cymorth addas ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu harferion yn ddigon trylwyr iddynt weithredu fel ffrindiau beirniadol a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae'r pennaeth yn gweithio gydag ystod gyfyngedig o staff i ymgymryd â gweithgareddau hunanwerthuso er mwyn llunio barnau am ansawdd gwaith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r staff yn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn, ac at ei gilydd, mae prosesau monitro a hunanwerthuso'r ysgol yn rhy wan. O ganlyniad, ni chaiff arweinwyr ddarlun cywir o gryfderau'r ysgol na'i meysydd pwysicaf i'w gwella.

Mewn ychydig o achosion, mae gwaith gwella'r ysgol yn fuddiol; er enghraifft, cydnabu arweinwyr fod angen gwella diogelwch safle'r ysgol a'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd dysgu awyr agored. Fe wnaethant roi camau gweithredu effeithiol ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw camau gwella'r ysgol, yn enwedig o ran ansawdd yr addysgu a dysgu disgyblion, yn sicrhau ymglymiad a chydweithrediad llawn ystod ddigon eang o staff. O ganlyniad, mae gormod o staff wedi ymddieithrio o brosesau gwella'r ysgol ac mae hyn yn lleihau effaith ac effeithiolrwydd gweithgareddau a gynllunnir.

Mae'r pennaeth yn darparu ystod addas o gyfleoedd dysgu proffesiynol, allanol ar gyfer staff. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn trefnu sesiynau hyfforddi staff yn yr ysgol sy'n effeithio'n briodol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn ychydig o feysydd. Er enghraifft, arweiniodd y dirprwy bennaeth hyfforddiant staff ar ddefnyddio systemau olrhain electronig i gofnodi cynnydd disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae diffyg ymagwedd strategol mewn dysgu proffesiynol, ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon craff ar y meysydd allweddol lle mae angen gwelliant ar yr ysgol, fel ansawdd yr addysgu. Mae trefniadau i nodi anghenion hyfforddiant yn aneglur ac mae gwerthuso'r effaith a gaiff dysgu proffesiynol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion yn annigonol. Yn ychwanegol, mae trefniadau i rannu agweddau ar unrhyw arfer dda sy'n bodoli yn gyfyngedig.

Mae'r pennaeth yn gweithio gyda llywodraethwyr yn broffesiynol i reoli adnoddau'r ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed yn dda. Mae gan yr ysgol ddigon o offer ac adnoddau i gefnogi dysgu'n effeithiol yn y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Mae hyn yn galluogi athrawon i wneud y defnydd gorau o'r rhan fwyaf o ardaloedd mewnol ac allanol a darparu amgylchedd dysgu deniadol ar gyfer disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2020